**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG ARFAETHEDIG**

# GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL) (DIDDYMU AC AMRYWIO TERFYNAU CYFLYMDER)

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

O 17 Medi 2023, bydd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn achosi i'r terfyn cyflymder rhagosodedig ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru gael ei ostwng o 30mya i 20mya. Gan gydnabod na fydd yn briodol i bob ffordd o'r fath fod yn destun y terfyn cyflymder 20mya newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ddogfen ganllaw canlynol: Gosod eithriadau i'r terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi asesu'r ffyrdd y mae'n gyfrifol amdanynt fel Awdurdod Priffyrdd i ganfod pa rai ddylai gadw terfyn o 30mya ar ôl 17 Medi 2023. Mae wedi cymhwyso'r meini prawf a nodir yn y canllawiau, a'r ffactorau a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Ym mis Ebrill 2023, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgysylltu ar-lein i geisio barn am ei gynnig i gadw terfyn cyflymder o 30mya mewn lleoliadau amrywiol. Gofynnwyd am farn y cyhoedd, cyrff statudol, y Cynghorau Cymuned a Thref, Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Phrif Swyddog yr Heddlu. Mae wedi cymryd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw i ystyriaeth.

Mae'r Cyngor yn cynnig gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig 2023 Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ffyrdd Amrywiol) (Diddymu ac Amrywio Terfynau Cyflymder) 2023 i gadw terfynau cyflymder o 30mya ar y rhannau o ffyrdd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn. Mae'r Gorchymyn arfaethedig hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol ac yn dirymu darpariaethau Gorchmynion blaenorol pan fo angen.